# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 11fed o Hydref 2016 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:** Cynghorwyr Carys Morgan (Is-Gadeirydd), Ruby Williams, Barry Owen, Eiddwen Merritt a Wyn Evans.

**Hefyd yn bresennol:** Y Clerc.

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Wyn Jones, Jocelyn Andrew, Garym Roberts a Gerallt Davies.

**Datgelu buddiannau:** Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:** Darllenwyd cofnodion Mis Medi a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**

i. Codi sbwriel.

**Materion Cynllunio**

Rhif Cais: A160832

Dewi Villa, Ffos-y-Ffin.

Codi garej a porth car.

Dim gwrthwynebiad

**Anfoneb i'w dalu**

£48 i Dyfrig Jones am roi'r sedd i'w lle ar bwys Forge.

**Adolygiad o'r gyllideb**

Derbyniwyd adolygiad o'r gyllideb flynyddol hyd at y 10fed o Hydref 2016.

**Cyngor Sir Ceredigion**

Darllenwyd lythyr yn gwahodd cynrychiolwyr i gwrdd ag Arweinydd y Cyngor Sir, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn a'r Prif Weithredwr, Miss Bronwen Morgan i drafod materion a diddordeb cyfredol i'r ddau gorff sy'n cael ei gynnal ar y 7fed o Dachwedd am 6.30pm.

**Cymhennu Ceredigion**

Derbyniwyd lythyr yn sôn am yr ymgyrch uchod sydd wedi ei lansio fel rhan o brosiect ehangach Caru Ceredigion sy'n annog cymunedau lleol i fynd i'r afael â phroblemau a materion sy'n bwysig iddyn nhw.

**Un Llais Cymru**

Cyhoeddwyd fod Pwyllgor Ardal Ceredigion i'w gynnal ar y 19eg o Hydref yn Siambr y Cyngor, Penmorfa.

Fe fydd dau aelod yn mynychu.

**Ymgynghoriad ar uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yng Nghymru**

Fe anfonwyd yr ymateb i'r ddogfen ymgynghori uchod. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn ffafrio yr opsiwn i uno'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru i Ddiwygio Llywodraeth Leol**

Darllenwyd y datganiad diweddaraf gan Mark Drakeford AC i'r uchod.

Cyhoeddodd ei fod wedi cwrdd a gwahanol gymdeithasau ac undebau o'r 22 awdurdod lleol ac ar ol gwrando are eu sylwadau penderfynodd i gadw'r awdurdodau presennol fel haen ddemocrataidd o lywodraeth leol.

**Treth Stamp yng Nghymru**

Derbyniwyd lythyr yn cyhoeddu y bydd Cymru yn cyflwyno y dreth stamp Cymreig gyntaf ers 800 mlynedd yn 2018.

Er mwyn llywio gwaith craffu ar y Bil hwn, gwahoddir bobl i roi eu barn ar ei gwefan.

**U. F. A.**

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15.

Dyddiad y cyfarfod nesaf yw'r 8fed o Dachwedd.